Sefyll yn gadarn dros gydraddoldeb

Os na wnawn ni, pwy wnaiff? Os nad heddiw, pryd?

Strategaeth amrywiaeth a chydraddoldeb y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth 2012-15

Cynnwys

3 Cyflwyniad

4 Pam cydraddoldeb ac amrywiaeth? Pam ni?

1.1 Ein nodau a'n hegwyddorion
1.2 Yr hyn mae cydraddoldeb yn ei gyfrannu at ein gwasanaeth
1.3 Pam ni?

6 Blaenoriaethau a nod cyffredinol

2.1 Meysydd targed

8 Ble rydyn ni'n awr: bylchau a chyfleoedd

3.1 Targed un: Herio gwahaniaethu drwy roi cyngor
3.2 Targed 2: Hyrwyddo cydraddoldeb drwy eiriolaeth
3.3 Targed 3: Gwerthfawrogi amrywiaeth fel cyflogwr, asiantaeth wirfoddoli a chontractwr

12 Ble byddem yn hoffi bod

14 Sut rydym am gyrraedd y nod

5.1 Fframwaith cysyniadol y strategaeth
5.2 Bod yn glir ynghylch ein swyddogaeth a'n partneriaethau
5.3 Cynllunio ar gyfer gweithredu
5.4 Llywodraethu ac atebolrwydd

18 Atodiad 1. Cyd-destun y strategaeth

1.1 Y Cyd-destun allanol
1.2 Bylchau allweddol yn y gwasanaeth cynghori
1.3 Materion amrywiaeth mewnol allweddol

Cyflwyniad

llun gan Justin Piperger

John Gladwin

llun gan Ian Ennes

Gillian Guy

Rydym mewn cyfnod o newid gwleidyddol ac economaidd pellgyrhaeddol a chyflym sy'n cael effaith enfawr ar gleientiaid y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth ac ar y cymunedau ehangach rydym yn eu gwasanaethu ym mhob rhan o Gymru a Lloegr.

O gofio'r cefndir hwn, mae angen i bawb ohonom ddyblu ein hymdrechion i sefyll yn gadarn dros y rheiny sy'n wynebu anghydraddoldeb ac anfantais ac i godi llais drostynt. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y gallwn wneud hyn yn y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth a'i ganolfannau, drwy roi ein hegwyddorion ar waith gant y cant a:

- sicrhau ein bod yn gallu rhoi cyngor o ansawdd uchel yn gyson ar broblemau cydraddoldeb hollbwysig, a bod y grwpiau sydd fwyaf ar y cyrion yn ein cymdeithas yn gallu cael cyngor gennym
- defnyddio mwy ar ein sylfaen dystiolaeth sy'n tyfu o hyd i eiriol dros newid cymdeithasol a newid mewn polisi ar ran pobl sydd fwyaf ar y cyrion yn ein cymdeithas
- sicrhau ein bod yn gyflogwyr ac yn asiantaethau gwirfoddoli sy'n esiampl i eraill.

O'r dechrau un, mae llunio 'Sefyll yn gadarn dros gydraddoldeb' wedi bod yn ymdrech ar y cyd, wedi'i seilio ar sylwadau dros 500 o ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr a staff yng nghanolfannau ac yng ngwasanaeth Cyngor ar Bopeth, sefydliadau rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd. Mae'n gweithredu ar yr arferion a'r atebion gwych sydd eisoes yn bodoli yn y gwasanaeth ac yn ein sefydliadau partner ac yn ceisio adeiladu arnynt. Mae hefyd yn seiliedig ar ddadansoddiad o dystiolaeth fewnol ac allanol gynhwysfawr.

Mae'r strategaeth yn nodi nifer o nodau uchelgeisiol rydym am eu cyrraedd erbyn 2015. Caiff ei hategu gan gynlluniau gweithredu blynyddol ar gyfer Cyngor ar Bopeth o fewn y drefn cynllunio busnes, a bydd canolfannau'n cael cymorth i lunio camau gweithredu ar gydraddoldeb ar gyfer eu cynlluniau busnes blynyddol eu hunain.

Mae'r strategaeth yn cydnabod bod pob canolfan yn unigryw a bod angen lleol yn dylanwadu ar flaenoriaethau bob canolfan unigol. Yn yr un modd, mae gan dimau gwahanol yn y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth swyddogaethau gwahanol i'w cyflawni. Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor ar Bopeth, y Pwyllgor Cydraddoldeb, a'r Tîm Gweithredol wedi ymrwymo i ddarparu'r arweinyddiaeth angenrheidiol a fydd yn galluogi pob un ohonom i gyfrannu, yn ein ffordd ein hunain, at roi'r strategaeth hollbwysig hon ar waith.

John Gladwin
Cadeirydd

Gillian Guy
Prif Weithredwr

1 Pam cydraddoldeb ac amrywiaeth? Pam ni?

1.1 Ein nodau a'n hegwyddorion

- Rhoi'r cyngor sydd ei angen ar bobl i ddelio â'r problemau maent yn eu hwynebu.
- Gwella'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd i bawb ar eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a hynny'n rhad ac am ddim. Mae'n gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu.

Mae ein hamcanion a'n hegwyddorion a'n diffiniad o gydraddoldeb wedi'u gwreiddio yn ein rhwymedigaethau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ond maent yn mynd y tu hwnt i hynny. Mae hyn yn golygu ein bod yn ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb (oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodasau a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol) yn ogystal ag agweddau allweddol eraill ar gydraddoldeb megis cefndir cymdeithasol-economaidd, yr iaith Gymraeg, ynysu gwledig, a sgiliau sylfaenol isel.

1.2 Yr hyn mae cydraddoldeb yn ei gyfrannu at ein gwasanaeth

Mae ansawdd a chydraddoldeb yn mynd law yn llaw. Mae mwy a mwy o dystiolaeth allanol bod canolbwyntio ar gydraddoldeb yn dod â buddion i fusnes sydd nid yn unig yn gysylltiedig â chyflawni amcanion cydraddoldeb ond sydd hefyd yn sicrhau gwelliannau ehangach yng nghyswllt gwasanaethau, effeithiolrwydd a diwylliant y sefydliad. Mae ein profiad ni o weithredu strategaethau cydraddoldeb blaenorol yn cadarnhau eu bod yn gwella ein harferion cyflogaeth, a'n prosesau rhoi cyngor ac yn gwella mynediad a chanlyniadau cleientiaid; maent hefyd yn cryfhau ein gwaith polisi a'n gwaith ymgyrchu. Yn ei hanfod, mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein cymell i fod yn well ac i wneud yn well.

1.3 Pam ni?

Dangosodd adborth gan y cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad ar y strategaeth yn glir iawn bod pobl yn aml yn teimlo mai ni yw eu gobaith olaf am gyfiawnder. Mae arnynt eisiau gallu troi aton ni am gymorth gyda phroblemau cydraddoldeb. Maen nhw am i ni sefyll drostynt.

Daw ein cleientiaid o gefndiroedd amrywiol. Yn 2010/11 bu i ni helpu:

- 315,000 o bobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (15 y cant o'n holl gleientiaid).
- 351,000 o bobl anabl/pobl â chyflyrau iechyd hirdymor (23 y cant).
- 231,000 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed (11 y cant).
- 252,000 o bobl dros 65 oed (12 y cant).

O gofio'r pwyntiau hyn, ac yng ngoleuni'r cyd-destun allanol sydd wedi'i nodi yn atodiad 1, mae gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth ran glir a hollbwysig i'w chwarae yng nghyswllt cydraddoldeb. Mae iddi dair elfen, sef:

- Canfod – problemau cydraddoldeb cudd lle ceir yr angen mwyaf, ac adeiladu'r sylfaen dystiolaeth.
- Grymuso – helpu pobl i ddeall eu hawliau a sut i'w gweithredu, gan gynnwys ar ffurf gwybodaeth, cyngor, gwaith achos a chymorth arall (a ddarperir, yn aml, ond nid bob tro, gan y gwasanaeth CAB).
- Eirioli – dros gydraddoldeb, er mwyn cael y rheiny sydd mewn awdurdod i wneud eu gwaith, a defnyddio'r sylfaen dystiolaeth i ddylanwadu ar bolisi, ymarfer a newid cymdeithasol.

Mae'r swyddogaeth yn gyson â'n cryfderau traddodiadol ac â'n cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer datblygu.

Mae ein slogan ar gyfer y strategaeth – sef 'Os na wnawn ni, pwy wnaiff? Os nad heddiw, pryd?' yn crynhoi'r angen i ni gyflawni ein swyddogaeth.

2 Blaenoriaethau a nod cyffredinol

Nod cyffredinol y strategaeth Sefyll dros gydraddoldeb yw cael y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth i roi ein hegwyddorion ar waith a herio gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth.

I gyflawni'r nod hwn, mae angen i ni greu newid diwylliannol ar ddwy lefel – yn y gymdeithas ac yn y gwasanaeth. Er mwyn symbylu'r newid hwnnw, byddwn yn canolbwyntio ar flaenoriaethau: targedu tri maes ar gyfer newid, gyda chynnydd ym mhob un yn helpu i greu newid pellach.

Mae hyn i'w weld ar ffurf llun ar y dudalen nesaf.

Newid diwylliant:

- Rhoi ein hegwyddorion a'n nodau ar waith yn llawn
- Darparu'r gwasanaeth eirioli a'r cyngor ar gydraddoldeb y mae ar bobl ei angen



2.1 Meysydd targed

Dyma'r meysydd rydym yn eu targedu:

Un: Herio gwahaniaethu drwy roi cyngor, gan:

- Ganfod materion sy'n berthnasol i wahaniaethu a hawliau dynol.
- Darparu'r cyngor ynghylch cydraddoldeb sydd ar bobl ei angen.
- Grymuso cleientiaid i weithredu.

Dau: Hyrwyddo cydraddoldeb drwy eiriolaeth, gan:

- Adrodd hanesion ein cleientiaid o gefndiroedd amrywiol.
- Sicrhau bod y rheiny mewn awdurdod yn gwneud eu gwaith.
- Arwain ar bolisïau allweddol ym maes cydraddoldeb a dylanwadu arnynt.

Tri: Gwerthfawrogi amrywiaeth drwy ein swyddogaethau fel cyflogwr, asiantaeth wirfoddoli a chontractwr, gan:

- Ddarparu arweinyddiaeth amlwg ac ymroddedig.
- Datblygu dull strategol o reoli amrywiaeth.
- Rhoi cymwyseddau cydraddoldeb ar waith.

Sefyll yn gadarn dros gydraddoldeb
Herio gwahaniaethu drwy roicyngor
Gwerthfawrogi amrywiaeth drwy ein swyddogaethau fel cyflogwr, asiantaeth wirfoddoli a chontractwr
Hyrwyddo cydraddoldeb drwy eiriolaeth
Darparu'r cyngor ynghylch cydraddoldeb sydd ar bobl ei angen
Canfod materion sy'n berthnasol i wahaniaethu a hawliau dynol.
Grymuso cleientiaid i weithredu
Rhoi cymwyseddau cydraddoldeb ar waith
Datblygu dull strategol o reoli amrywiaeth
Darparu arweinyddiaeth amlwg ac ymroddedig
Arwain ar bolisïau allweddol ym maes cydraddoldeb a dylanwadu arnynt
Sicrhau bod y rheiny mewn awdurdod yn gwneud eu gwaith
Adrodd hanesion ein cleientiaid o gefndiroedd amrywiol

3 Ble rydyn ni'n awr: bylchau a chyfleoedd

Mae cryn dipyn o arferion ardderchog ym maes cydraddoldeb i'w gweld ar draws rhwydwaith y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth. Mewn rhai meysydd gwaith, mae angen sicrhau mwy o gysondeb yng nghyswllt yr arferion hynny ar draws y rhwydwaith, neu rydym wedi nodi'r angen i adeiladu ar ein llwyddiant hyd yma er mwyn creu digon o newid i symud ymlaen i'r lefel nesaf. Yn yr adran hon, nodir rhesymeg fer ar gyfer pob un o'r prif feysydd y mae angen i'r strategaeth roi sylw iddynt. Mae rhagor o wybodaeth yn yr atodiadau.

3.1 Targed un: Herio gwahaniaethu drwy roi cyngor

Mae gwahaniaethu yn codi ar draws sbectrwm sy'n cynnwys triniaeth annheg, aflonyddu ac erledigaeth gan gyflogwyr, awdurdodau a darparwyr gwasanaeth. Ymysg y problemau sy'n gyffredin yn y maes hwn mae gwahaniaethu yng nghyswllt beichiogrwydd a mamolaeth, a methiant i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl. Mae'r sbectrwm gwahaniaethu hefyd yn cynnwys digwyddiadau casineb a throseddau sy'n effeithio ar bobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a chymunedau crefyddol, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Mae hefyd yn cynnwys trais seiliedig ar rywedd. Mae ymchwil yn awgrymu bod gwahaniaethu, casineb a thrais seiliedig ar rywedd yn aml yn faterion cuddiedig a chydgysylltiedig sydd wrth wraidd problemau cleientiaid.

Gwahaniaethu

Mae gwahaniaethu yn un o'r tair prif broblem y mae pobl eisiau, ond yn methu, cael cyngor yn ei chylch. Gwnaed cynnydd da dan FAIR, sef y strategaeth gydraddoldeb flaenorol, ac erbyn hyn mae gwahaniaethu yn destun cyngor craidd dan Gynllun Aelodaeth y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth. Fodd bynnag, mae'r graddau y gweithredir hyn yn amrywio ar draws y gwasanaeth. Rhwng 2007/08 a 2010/11, cynyddodd ymholiadau i ganolfannau ynghylch gwahaniaethu i 28,500, sef cynnydd o 25 y cant. Ond mae canlyniadau archwiliadau yn dangos nad yw cynghorwyr cyffredinol yn mynd ar drywydd pob mater a allai fod yn gysylltiedig â gwahaniaethu. Mae mwy o ganolfannau yn cynnig cynrychiolaeth a gwaith achos arbenigol ym maes gwahaniaethu, ond mae'r cyllid hwnnw dan fygythiad difrifol yn sgil diwygio cymorth cyfreithiol a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Troseddau a digwyddiadau casineb

Yn 2009/10, riportiwyd 52,028 o ddigwyddiadau casineb i'r heddlu. Roedd y rhain yn ddigwyddiadau casineb homoffobig, trawsffobig, hiliol a chrefyddol a digwyddiadau'n ymwneud ag anabledd. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos bod tan-riportio, diffyg ymwybyddiaeth a diffyg ffynonellau cymorth yn broblemau mawr. Mae cant dau ddeg a thri o ganolfannau (31 y cant) yn ganolfannau ar gyfer riportio digwyddiadau casineb, ac er bod rhai ohonynt yn arwain yn y maes, mae llawer ohonynt yn ganolfannau riportio mewn enw yn unig oherwydd diffyg seilwaith a chymorth. Yn sgil dadansoddi ffurflenni tystiolaeth electronig y canolfannau (a elwir yn ffurflenni EBEF) ar gasineb, gwelwn fod ein cleientiaid angen i ganolfannau

gyflawni swyddogaeth bolisi yng nghyswllt cael yr heddlu, tai ac awdurdodau eraill i gymryd casineb o ddifrif ac ymateb yn briodol.

Trais seiliedig ar rywedd

Bob blwyddyn, mae un fenyw ym mhob wyth yn dioddef cam-drin domestig. Mae hyn yn golygu y gallai 150,000 o'n cleientiaid oedd yn ferched fod wedi dioddef cam-drin domestig y llynedd. Yn benodol, mae canolfannau yn rhoi cymorth i filoedd o ferched (a dynion) sydd â phroblemau dyled neu broblemau iechyd meddwl. Mae'r naill beth a'r llall â chysylltiad agos â cham-drin domestig. Serch hynny, yn 2010/11, dim ond 13,741 o gleientiaid, yn ddynion ac yn ferched, y bu i ni roi cyngor iddynt ynghylch cam-drin domestig. Mae ymchwil yn dangos bod pobl sy'n dioddef trais seiliedig ar rywedd am i asiantaethau roi'r cyfle iddynt ddatgelu eu problemau. Mae tri deg o ganolfannau yn cynnig gwasanaethau sy'n ymwneud yn benodol â sefyllfaoedd cam-drin domestig a sefyllfaoedd eraill perthnasol i drais seiliedig ar rywedd. Mae'r rhain yn ffynhonnell gyfoethog o safbwynt arferion da ac arweiniad ar swyddogaethau sy'n briodol i ganolfannau eu cyflawni. Yn sgil dadansoddi ffurflenni EBEF ar drais seiliedig ar rywedd, gwelwn fod ein cleientiaid am i ganolfannau gyflawni swyddogaeth bolisi yng nghyswllt cael yr heddlu, tai ac awdurdodau eraill i gymryd trais seiliedig ar rywedd o ddifrif ac i ymateb yn briodol, yn arbennig o gofio nad oes gan un awdurdod lleol ym mhob tri unrhyw wasanaethau cam-drin domestig arbenigol.

Pobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

Mae BSL yn iaith gyntaf i gan mil o bobl yn Lloegr. Yn ogystal, mae 150,000 arall wedi colli cyfran sylweddol o'u clyw. Mae pobl fyddar ymysg y rhai sydd wedi'u hallgáu fwyaf o'r gymdeithas ac maent yn llawer mwy tebygol o fod yn ddi-waith. Maent hefyd yn llawer mwy tebygol na gweddill y boblogaeth o gael problemau iechyd meddwl a phroblemau iechyd corfforol. Mae diffyg ymwybyddiaeth o'r angen i ddarparu gwasanaeth cyfieithu BSL ac i wneud addasiadau rhesymol eraill (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ar gyfer pobl Fyddar. Mae ffynonellau cyngor yn brin, ac mae grwpiau ffocws gyda phobl Fyddar wedi nodi'r angen i ganolfannau wella mynediad at wasanaethau i ddefnyddwyr BSL ac i wella eu profiad fel cwsmeriaid. Er hynny, mae enghreifftiau o arferion ardderchog yn y gwasanaeth y gellid eu copïo.

Sipsiwn a Theithwyr

Mae rhwng 200,000 a 300,000 o Sipsiwn a Theithwyr yn Lloegr, gan gynnwys y rheiny sy'n teithio neu sy'n byw ar safleoedd, a'r rheiny sy'n byw mewn cartrefi sefydlog. Mae Sipsiwn a Theithwyr yn grwpiau ethnig sy'n wynebu rhai o'r anfanteision mwyaf cymhleth a pharhaus. Mae awdurdodau yn eu trin mewn ffordd sy'n 'amlwg llai ffafriol'. Mae nifer y Sipsiwn a'r Teithwyr sy'n defnyddio canolfannau wedi cynyddu 100 y cant dros y tair blynedd diwethaf, sef 2,424 o gleientiaid. Er hynny, mae angen i ni ddatblygu hyn ymhellach os am ddiwallu'r angen. Mae lefel yr anfantais mae Sipsiwn a Theithwyr yn ei dioddef yn debygol o ddwysáu yn sgil newidiadau i bolisïau lleol a chenedlaethol. Yn ogystal, mae'r cyllid ar gyfer nifer o'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd dan fygythiad.

3.2 Targed 2: Hyrwyddo cydraddoldeb drwy eiriolaeth

Cesglir data am ddemograffeg cleientiaid a'i ddefnyddio mewn cyflwyniadau polisi. Mae llawer i adeiladu arno, er enghraifft ein gwaith cenedlaethol ar anabledd a dyled ac ar anabledd a diwygio lles. Yn ogystal, ar lefel leol, mae rhai canolfannau wedi llwyddo i newid arferion a pholisïau cyrff cyhoeddus drwy ddefnyddio data ar gleientiaid sydd wedi cael ei ddadgyfuno. Ond nid yw data demograffig na data'n ymwneud â materion cleientiaid yn cael eu dadansoddi'n systematig ar sail cydraddoldeb. Bydd Petra, ein system newydd ar gyfer rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid, yn darparu mwy o gyfleoedd i ni wneud hyn ac i ddefnyddio'r data i wneud gwahaniaeth i'n cleientiaid. Er enghraifft, drwy gynnal

adolygiadau thematig o'r materion mae ein 315,000 o gleientiaid o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi gofyn am gyngor yn eu cylch.

Mae ein tystiolaeth am wahaniaethu, gan gynnwys trais seiliedig ar rywedd a chasineb, defnyddwyr BSL a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, wedi gwella. Ond, mae angen datblygu mwy yn y cyswllt hwn er mwyn symud ymlaen i'r lefel nesaf a gwireddu ein potensial yn llawn o ran sicrhau effaith.

Mae'r dadansoddiad o'r ffurflenni EBEF ac o arolwg angen mwyaf 2010 wedi dangos bod gan ganolfannau swyddogaeth eirioli allweddol o ran cael awdurdodau i gymryd trais seiliedig ar rywedd a materion yn ymwneud â chasineb o ddifrif a darparu ymatebion priodol.

Yn olaf, mae cyfle pwysig i ganolfannau ddefnyddio tystiolaeth cleientiaid i ddylanwadu ar ymagwedd awdurdodau lleol tuag at Ddyletswyddau Cydraddoldeb newydd y Sector Cyhoeddus (adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010) a'u dal yn atebol am eu cynnydd o ran dileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da.

3.3 Targed 3: Gwerthfawrogi amrywiaeth fel cyflogwr, asiantaeth wirfoddoli a chontractwr

Yn sgil FAIR, strategaeth amrywiaeth a chydraddoldeb flaenorol y gwasanaeth, sicrhawyd rhai gwelliannau allweddol yn ein perfformiad fel cyflogwr ac fel asiantaeth wirfoddoli. Roedd wyth deg y cant o'n canolfannau wedi defnyddio'r strategaeth FAIR a chafwyd nifer o fentrau ardderchog mewn canolfannau ac yn y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth. At ei gilydd, rydym yn gwneud yn dda o gymharu ag eraill yn y sector. Ond, gan fod perfformiad cyffredinol y sector yn wael, nid yw hwn yn fesur da iawn o lwyddiant ac nid ydym wedi sicrhau'r newid mawr yr oeddem am ei weld.

Mae cyfran y gwirfoddolwyr ifanc a'r gwirfoddolwyr o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sydd gennym yn ein canolfannau wedi cynyddu. Mae 20% o'n gwirfoddolwyr newydd o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac mae 20 y cant dan 25 oed. Serch hynny, er inni weld cynnydd o un y cant yn nifer y staff a'r ymddiriedolwyr anabl, cafwyd gostyngiad o ddau y cant yn nifer y gwirfoddolwyr anabl.

Cymysg fu'r cynnydd yn y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth hefyd. Ni oedd yr elusen oedd yn perfformio orau ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall yn 2010. Bu i ni lwyddo i ennill a chadw'r symbol Yn Gadarn o blaid Pobl Anabl ac i gynyddu nifer a chanran ein staff anabl. Ond, nid ydym ond wedi llwyddo i gadw'r status quo yng nghyswllt staff o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac ni fu unrhyw gynnydd o ran cryfhau amrywiaeth ar lefel rheolwyr gweithredol (er bod mwy o amrywiaeth ar lefel rheolwyr canol ac is-reolwyr). Mae angen i ni symud o ymagwedd ad-hoc tuag at ddatblygu a rheoli amrywiaeth i ymagwedd strategol.

4 Ble byddem yn hoffi bod

Mae'r tabl isod yn rhoi darlun o'r sefyllfa ddelfrydol.

Beth rydym yn ei wneud yn y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth: ein hegwyddorion a'r meysydd targed	Canlyniadau delfrydol erbyn 2015
Herio gwahaniaethu drwy roi cyngor drwy: • Ganfod materion sy'n berthnasol i wahaniaethu a hawliau dynol. • Darparu'r cyngor ynghylch cydraddoldeb sydd ar bobl ei angen. • Grymuso cleientiaid i weithredu.	• Ymdrinnir â gwahaniaethu (gan gynnwys casineb a thrais seiliedig ar rywedd) fel testun cyngor craidd. • Mae Canolfannau Cyngor Ar Bopeth yn canfod 100% o faterion gwahaniaethu posibl ac yn rhoi'r cyngor cywir. • Mae 100% o ganolfannau yn ganolfannau riportio casineb. • Mae 100% o gynghorwyr dyled ac iechyd meddwl yn gallu adnabod trais seiliedig ar rywedd a darparu gwybodaeth amdano. • Mae 100% o bobl yn gwybod eu bod yn gallu rhannu eu problemau casineb a thrais seiliedig ar rywedd a gwahaniaethu â ni • Mae 100% o ganolfannau wedi adolygu'r angen i wella mynediad ar gyfer defnyddwyr BSL a chleientiaid o blith y gymuned Sipsiwn a Theithwyr ac wedi cymryd unrhyw gamau a nodwyd.
Hyrwyddo cydraddoldeb drwy eiriolaeth drwy: • Adrodd hanesion ein cleientiaid o gefndiroedd amrywiol. • Sicrhau bod y rheiny mewn awdurdod yn gwneud eu gwaith. • Arwain ar bolisïau allweddol ym maes cydraddoldeb a dylanwadu arnynt.	• Rydym yn canfod y materion polisi cydraddoldeb pwysicaf yn genedlaethol ac yn lleol. • Rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i greu newid yng nghyswllt polisïau cydraddoldeb yn genedlaethol ac yn lleol. • Rydym yn cydweithio'n effeithiol ag unigolion a phartneriaid er mwyn sicrhau y clywir eu llais.
Gwerthfawrogi amrywiaeth – fel cyflogwr, asiantaeth wirfoddoli a chontractwr: • Darparu arweinyddiaeth amlwg ac ymroddedig. • Datblygu dull strategol o reoli amrywiaeth. • Rhoi cymwyseddau cydraddoldeb ar waith.	• Ein holl ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr yn deall pam mai cydraddoldeb yw ein busnes craidd a beth yw eu swyddogaeth yng nghyswllt creu'r amgylchedd gweithio a'r ddarpariaeth yn y maes busnes sy'n berthnasol iddyn nhw. • Rydym yn adlewyrchu amrywiaeth ein cleientiaid yn fras ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol. • Rydym yn monitro canlyniadau staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr.

Advocate
What's your role?
100%
Take action. PLAN
STAND UP to gender violence
Rwy'n partneriaethau
If not us, who?
If not now, when?
STAND UP FOR EQUALITY
DYLETSWYDD CYDRADDOLDEB
grymuso
dignity
urddas
beth yw eich rôl?

5 Sut rydym am gyrraedd y nod

5.1 Fframwaith cysyniadol y strategaeth

Yr unig ffordd rydym am lwyddo i greu'r newid y mae arnom ei eisiau yw drwy lynu'n gadarn wrth ein gwerthoedd a'n hegwyddorion craidd. I gynorthwyo gyda hyn, byddwn yn mabwysiadu ymagwedd hawliau dynol fel y fframwaith cysyniadol a fydd yn sail i'r strategaeth. Bydd hyn yn llywio'r ffordd y byddwn yn ei gweithredu.

Mae mabwysiadu ymagwedd hawliau dynol fel fframwaith cysyniadol yn golygu:

- Rhoi gwerthoedd craidd ar waith, sef urddas, parch, cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu, yn seiliedig ar ein dynoliaeth gyffredin. Er enghraifft, byddai hyn yn ein helpu i lunio safonau ar gyfer sicrhau ein bod, wrth ddisgrifio profiadau ein cleientiaid, yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n cadw eu hurddas.
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n grymuso pobl ac sy'n eu hannog i gyfranogi ar bob lefel, gan gynnwys ym maes gwneud penderfyniadau – o safbwynt unigolion a phartneriaid fel sy'n briodol. Er enghraifft, datblygu dulliau systematig o gynnwys eraill yn y gwaith o gyd-ddylunio prosiectau, gwasanaethau ac atebion polisi.
- Ymgorffori hawliau dynol mewn mentrau a phrosesau cyfredol. Er enghraifft, defnyddio hawliau dynol i helpu i wella safonau gwasanaeth cwsmeriaid.

5.2 Bod yn glir ynghylch ein swyddogaeth a'n partneriaethau

Fel y nodwyd yn 1.3 uchod, mae gennym swyddogaeth glir a hollbwysig i'w chyflawni o ran:

- Canfod – problemau cydraddoldeb cudd lle ceir yr angen mwyaf, ac adeiladu'r sylfaen dystiolaeth.
- Grymuso – helpu pobl i ddeall eu hawliau a sut i'w gweithredu, gan gynnwys ar ffurf gwybodaeth, cyngor, gwaith achos a chymorth arall (a ddarperir, yn aml, ond nid bob tro, gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth).
- Eirioli – dros gydraddoldeb, er mwyn cael y rheiny sydd mewn awdurdod i wneud eu gwaith, a defnyddio'r sylfaen dystiolaeth i ddylanwadu ar bolisi, ymarfer a newid cymdeithasol.

Bydd partneriaethau yn hanfodol i gyflawni'r swyddogaeth honno:

Ystyr 'Os na wnawn ni, pwy wnaiff?' yw bod yn rhaid i ni fod yn barod i wneud safiad a chwarae rôl arwain gyfrifol, yn enwedig ar ran cleientiaid neu yng nghyswllt materion a allai gael eu hanwybyddu fel arall. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i ni – neu y dylen ni – wneud popeth ein hunain. Bydd ein gwaith yn fwy effeithiol os caiff ei ddatblygu a'i gyflawni mewn partneriaeth ag eraill. Dylem anelu at fod yn rhagweithiol o safbwynt datblygu partneriaethau strategol ar lefel leol a chenedlaethol, gwneud yr hyn rydym mewn sefyllfa unigryw i'w wneud, ac ychwanegu gwerth at y darlun cyffredinol.

5.3 Cynllunio ar gyfer Gweithredu

Fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y strategaeth, casglwyd adborth ar gamau gweithredu arfaethedig a nodwyd pa gamau pellach y gallai'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth a'i ganolfannau eu cymryd i roi'r strategaeth ar waith. Roedd hyn yn cynnwys cam gweithredu symbolaidd allweddol ar gyfer pob maes oedd yn cael ei dargedu a chyfuniad o ymyriadau strategol ac ymyriadau 'busnes fel arfer' a allai ysgogi newid. Mae'r rhestr lawn ar gael er gwybodaeth ar CABlink neu ar gais. Defnyddir y rhain i lunio cynlluniau gweithredu o fewn y cylch cynllunio busnes.

Cyngor ar Bopeth

Bydd Cyngor Ar Bopeth yn cyhoeddi cynllun yn cynnwys camau gweithredu sydd i'w cwblhau o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol, amserlen ar gyfer camau gweithredu ar y lefel uchaf dros y tair blynedd ddilynol, a chynlluniau gweithredu blynyddol manwl o fewn ei gynllun busnes corfforaethol. Bydd y cynlluniau yn egluro pwy sy'n gyfrifol am bob gweithgaredd neu ganlyniad.

Mae'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt eisoes ac sydd ar waith ym mis Tachwedd 2011 yn cynnwys:

Maes Targed un:

- Cynnig am y contract i ddarparu Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo ym maes Cydraddoldeb.
- Llunio strategaeth hyfforddiant ar gyfer rhoi cyngor ar wahaniaethu (a fydd yn ddilys waeth beth fydd canlyniad y cynnig am y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo ym maes Cydraddoldeb).
- Ceisio cyllid peilot sylweddol er mwyn hwyluso mynediad y rheiny sy'n defnyddio BSL at gyngor, mewn partneriaeth â nifer o fudiadau.

Maes Targed dau:

- Lobïo dros barhau â gwasanaethau cynrychioli a gwaith achos ym maes gwahaniaethu.
- Llunio pecyn cymorth ar ddefnyddio Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mewn partneriaeth â'r Fforwm Amrywiaeth a Chydraddoldeb.

Maes Targed tri:

- Llunio dull strategol ar gyfer datblygu a rheoli amrywiaeth fel rhan o strategaeth Pobl ehangach.
- Ehangu monitro gwirfoddol ym maes cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd a chred yng nghyswllt cleientiaid a gweithluoedd canolfannau.
- Diweddaru ein polisi a'n gweithdrefnau ar weithredu cadarnhaol wrth recriwtio.

Y Canolfannau

Bydd Cyngor ar Bopeth yn cyhoeddi canllawiau ar y gwahanol lefelau o gamau gweithredu y gall canolfannau eu hymgorffori yn eu cynlluniau busnes er mwyn rhoi'r strategaeth ar waith yn eu hardal nhw. Caiff hyn ei ddiweddaru bob blwyddyn dros oes y strategaeth.

5.4 Llywodraethu ac atebolrwydd

Y Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth

Y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol fydd yn gyfrifol am ddarparu'r arweinyddiaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau y cyflawnir y strategaeth. Bydd Tîm y Strategaeth Gydraddoldeb, a fydd yn adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, yn cynorthwyo cyfarwyddwyr, yn cyfleu cynnwys y strategaeth, yn cydlynu cyflwyniad y strategaeth i ranbarthau a thimau, ac yn darparu arbenigedd. Bydd pob rhanbarth a thîm yn y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn gyfrifol am ddarparu'r gweithgareddau a chyflawni'r canlyniadau yn eu maes busnes.

Bydd y Gweithgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynorthwyo gyda'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth yng Nghymru drwy ei swyddogaeth gynghori i Bwyllgor Cyngor ar Bopeth Cymru. Gellir gweld cylch gorchwyl llawn y Gweithgor yn cablink.org.uk/cymru_eopps_group.

Bydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, sy'n un o is-bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, yn darparu arweinyddiaeth strategol, goruchwyliaeth ac arweiniad. Gellir gweld cylch gorchwyl llawn y Pwyllgor yn cablink.org.uk/committees. Bydd y Pwyllgor Cydraddoldeb yn monitro cynnydd bob chwarter, a bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn monitro cynnydd bob blwyddyn.

Mae gan y Grwpiau Rhwydwaith Hunan-Drefnedig (SONGs) – sef y Grŵp Gweithwyr Du Cenedlaethol, y Grŵp Gweithwyr Anabl Cenedlaethol, y Grŵp Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cenedlaethol, a'r Grŵp Merched Cenedlaethol – swyddogaeth bwysig i'w chyflawni o safbwynt sicrhau bod y polisïau, y gweithgareddau a'r arferion a lunnir dan y strategaeth yn diwallu anghenion ac yn grymuso pobl o'r grwpiau hynny a thrwy eu haelodaeth o'r Pwyllgor Cydraddoldeb.

Y Canolfannau

Bydd y trefniadau yn amrywio yn ôl amgylchiadau pob canolfan. Ond bydd angen i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr neu Reolwr y Ganolfan gytuno ar bwy sy'n gyfrifol am oruchwylio a chyflawni'r strategaeth.

Atodiad 1.
Cyd-destun y strategaeth

Pennwyd y tri maes ar gyfer newid drwy ddadansoddi'r dystiolaeth a gafwyd yn sgil adolygu'r prif ddatblygiadau mewnol ac allanol sydd wedi digwydd, sy'n digwydd ar hyn o bryd ac sy'n debygol o ddigwydd dros gyfnod y strategaeth. Ceir crynodeb o'r cyd-destun isod. Mae crynodeb llawn o'r PESTL, y SWOT a'r dystiolaeth ar gael ar CABlink neu ar gais.

1.1 Y Cyd-destun Allanol

Yn ogystal â'r cyd-destun economaidd ac effaith toriadau ar gydraddoldeb, nododd ein hadolygiad yr effaith negyddol sylweddol bosibl y gallai'r materion a'r agendâu polisi isod ei chael ar gydraddoldeb o safbwynt ein cleientiaid a'n cymunedau, sef:

- Tryloywder, atebolrwydd, lleoliaeth a'r Gymdeithas Fawr.
- Strategaeth gydraddoldeb y Llywodraeth ar gyfer 2010 (colli'r ffocws ar gydraddoldeb hiliol).
- Diwygio Cymorth Cyfreithiol.
- Diwygio'r GIG.
- Diwygio lles a gofal cymdeithasol, ynghyd â'r stigma sydd ynghlwm wrth grwpiau megis pobl sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl.
- Digidol – drwy ddiffyg a'r posibilrwydd y bydd miliynau o bobl o nifer o grwpiau cydraddoldeb gwahanol yn methu defnyddio gwasanaethau.
- Anghydraddoldebau o ran incwm a chyflog.
- Tresmasu ar hawliau dynol cymunedau penodol, megis pobl â phroblemau iechyd meddwl mewn amgylcheddau gofal cymdeithasol a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.
- Grwpiau fel pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a phobl anabl yn cael eu herlid drwy fwlio a digwyddiadau casineb.
- Datganoli a'r agendâu cydraddoldeb a gwleidyddol gwahanol yng Nghymru a Lloegr.

Mae effeithiau cronnol ac unigol y newidiadau hyn yn amlygu swyddogaeth eirioli gryfach fyth yng nghyswllt cydraddoldeb i'r gwasanaeth ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol.

1.2 Bylchau allweddol yn y gwasanaeth cynghori

Drwy ddadansoddi'r dystiolaeth a'r broses ymgynghori, rydym wedi canfod yr angen i ddarparu cymorth ar ffurf seilwaith ar lefel genedlaethol, strategol er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau cynghori mewn tri maes. Dyma'r meysydd lle mae cydraddoldeb a'r angen mwyaf yn cwrdd, lle mae hawliau pobl yn cael eu bygwth fwyaf, lle ceir y mynediad lleiaf at gyngor a lle mae pobl yn cael eu rhwystro rhag cael cyngor (gan ganolfannau neu mewn ffordd arall) sef:

- Gwahaniaethu, gan gynnwys troseddau casineb a thrais seiliedig ar rywedd.
- Pobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.
- Sipsiwn a Theithwyr.

Yn ogystal â'r uchod, roedd ein hymchwil ddesg hefyd yn cynnwys grwpiau angen mwyaf eraill. Yn eu plith mae pobl hŷn sydd mewn tlodi, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg na gwaith, pobl â phroblemau iechyd meddwl, carcharorion, a phobl ag anawsterau dysgu. Ar lefel leol, bydd gan ganolfannau hefyd gymunedau crwydrol a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig penodol sydd ar gyrion cymdeithas y mae angen cyngor ac eiriolaeth arnynt i sicrhau eu hawliau.

Gwelsom na ddylid canolbwyntio ar y grwpiau hyn mewn ymyriadau strategol oherwydd mae canolfannau a/neu asiantaethau eraill eisoes yn darparu'n gymharol dda ar gyfer eu hanghenion nhw o safbwynt cyngor. Er enghraifft, mae 59 o ganolfannau eisoes yn darparu gwasanaethau i droseddwyr gan ymdrin ag oddeutu 40 y cant o ystâd y carchardai.

Daethom i'r casgliad, er y dylai'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth barhau i gynorthwyo canolfannau i ganfod a rhoi cymorth i gymunedau sydd â'r angen mwyaf yn eu hardal nhw, bod angen ymyriadau strategol ar lefel genedlaethol i wella gwasanaethau yng nghyswllt gwahaniaethu, defnyddwyr BSL a Sipsiwn a Theithwyr.

Ceir crynodeb o'r dystiolaeth sy'n ategu'r casgliadau hyn yn adran 2 y strategaeth a nodir hi yn fanwl yn CABlink.

1.3 Materion amrywiaeth mewnol allweddol

At ei gilydd, ni wnaed digon o gynnydd yng nghyswllt amrywiaeth gwirfoddolwyr, staff ac ymddiriedolwyr ers llinell sylfaen 2004. Mae canolfannau a gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd cydraddoldeb o'i gymharu ag eraill yn y sector gwirfoddol. Ond nid yw hynny'n ddigon o sail i fod yn hunanfodlon gan fod perfformiad y sector at ei gilydd yn wael.

Yn benodol, mae gennym fwy o wirfoddolwyr ifanc a gwirfoddolwyr o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y gwasanaeth nag a fu, ac mae'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn cael sgôr dda yn gyson ym Mynegai Cydraddoldeb Stonewall (ni oedd yr elusen oedd yn perfformio orau yn 2010). Ond mae cyfran y gwirfoddolwyr anabl sydd gennym mewn canolfannau wedi gostwng. Yn ogystal, mae cyfran y staff o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sydd gennym yn y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth wedi cynyddu, ond yna wedi dychwelyd i'w lefel wreiddiol.

Ar yr ochr gadarnhaol, mae cydraddoldeb wedi gwreiddio'n llawer gwell yn ein gwaith bob dydd, ein ffordd o feddwl, ein cynllunio a'n darpariaeth o safbwynt gwaith polisi a chyngor, a llwyddwyd i gyflawni llawer o bethau nodedig.

Rydym wedi dod i'r casgliad bod angen newid mawr ac i greu'r newid hwnnw, mae angen sicrhau newid diwylliannol, dull strategol o reoli amrywiaeth, a meithrin cymhwysedd ym maes cydraddoldeb.

Mae Sefyll yn gadarn dros gydraddoldeb hefyd ar gael fel fersiwn Word print bras.

Cyngor Ar Bopeth
Myddelton House
115-123 Pentonville Road
Llundain N1 9LZ
Ffôn: 020 7833 2181
www.citizensadvice.org.uk

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol
Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth.
Rhif cofrestru'r elusen: 279057.